# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **Hydref 3, 2017** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Mair Rowlands** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Geraint Owen** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **32335** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Cynllun Busnes – Prosiect Hunan-wasanaeth** |

### 1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1 Cymeradwyaeth o Gynllun Busnes y Prosiect Hunan-wasanaeth.
1.2 Cymeradwyo rhyddhau cyllid o £104,794 o'r Gronfa Trawsffurfio ar gyfer cwblhau'r gwaith

### 2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Er mwyn cadarnhau a chefnogi'r gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo i sicrhau hunan-wasanaeth ar lein.

### 3 CYFLWYNIAD

Mae'r Prosiect hunan-wasanaeth yn un o flaenoriaethau'r Cyngor ac mae hynny mewn cydnabyddiaeth bod disgwyliadau cwsmeriaid yn cynyddu'n barhaus a bod y Cyngor am i'r cyhoedd fedru cysylltu i gael gwasanaeth neu wybodaeth ar adegau sy'n gyfleus iddynt.

Cyflwynir yma y Cynllun Busnes ar gyfer cyfarch yr angen hwnnw. Mae'r Cynllun yn egluro sut y bwriedir darparu hunan-wasanaeth ar-lein tra'n adnabod y costau sydd ynghlwm â chyflawni'r gwaith yn ogystal ag amlinellu cyfraniad y datblygiadau hyn tuag at wireddu arbedion ariannol ar draws y Cyngor.

Cyflawnwyd gwaith ymchwil manwl fel rhan o'r paratoadau ar gyfer cyflwyno hunan-wasanaeth ac mae'r Cynllun Busnes yn manylu ar gasgliadau'r gwaith hwnnw. Mae'r wybodaeth a gasglwyd yn arddangos yn glir bod cryn ddiddordeb defnyddio gwasanaethau ar-lein syml ond bod angen llawer mwy o waith marchnata a newid meddylfryd cyn bo nifer o'r bobl yr ymgynghorwyd a hwy yn barod i wneud cais a thalu ar-lein am wasanaethau.

Mae Atodiad Ch yn y Cynllun Busnes yn rhestru'r hyn sydd o fewn y Cynllun Cyfathrebu er mwyn hyrwyddo a marchnata'r ddarpariaeth hunan-wasanaeth yn dilyn lawnsio'r pecyn cychwynnol.

## 4 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Mae swm cychwynnol o £250,000 eisoes wedi'i ryddhau o'r Gronfa Trawsffurfio ar gyfer cyllido'r prosiect. Mae'r Cynllun Busnes yn adnabod yr angen am fuddsoddiad pellach er mwyn parhau hefo'r gwaith datblygu (ac hyrwyddo) yn dilyn y lawnsiad cyhoeddus ym mis Tachwedd eleni.

Gofynnir felly i'r Cabinet gymeradwyo'r swm ychwanegol o £104,794 o'r Gronfa Trawsffurfio, sef y gwahaniaeth rhwng cyfanswm costau gweithredu'r prosiect (fel ag y mae'n ymddangos ar dudalen 28) a'r hyn sydd eisoes wedi'i fuddsoddi gan y Cyngor.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwdadau o safbwynt Priodoldeb

**Pennaeth yr Adran Cyllid:**

Wedi i mi adolygu Cynllun Busnes y Prosiect Hunan-Wasanaeth yn fanwl, rwy'n argyhoeddedig fod y ffigyrau ariannol ynddo yn amcangyfrifon teg o gostau tebygol ac arbedion posib.

Gan ystyried bydd y Prosiect Hunan-Wasanaeth yn cynorthwyo sawl adran i wireddu arbedion ariannol parhaol sylweddol, cadarnhaf rwy'n cefnogi'r penderfyniad a geisir i ddyrannu arian un-tro ychwanegol o'r Gronfa Trawsffurfio.